

Teitl: Title:	Ffôn symudol a dyfeisiau electronig - Meithrinfa Toybox
Fersiwn: Version	1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr, staff y feithrinfa

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad effaith / Impact assessment
<i>Effaith ar y Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list Staff y Feithrinfa		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		2201/2025
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		Os yn berthnasol / If applicable
Dyddiad Adolygu: Review Date:	31/01/2028		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Ffonau Symudol a Rhwydweithio Cymdeithasol

1.	Dyfeisiau symudol	2
2.	Defnydd rhieni o ffonau symudol ac oriorau clyfar	2
3.	Defnydd ymwelwyr o ffonau symudol ac oriorau clyfar	3
4.	Ffotograffau a Fideos	3
5.	Yn berthnasol ar gyfer gosodiadau sy'n defnyddio cyfnodolion ar-lein yn unig	3

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at bob dyfais electronig sy'n gallu tynnu lluniau, recordio fideos, anfon neu dderbyn galwadau a negeseuon. Mae hyn yn cynnwys camerâu, ffonau symudol, tabledi ac unrhyw ddyfeisiau recordio gan gynnwys oriorau clyfar. Mae mwy a mwy o ddyfeisiau'n dechnegol yn gallu ein cysylltu â'r byd y tu allan. Byddwn yn addasu'r polisi i gynnwys yr holl ddyfeisiau yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddiogelu plant.

1. Dyfeisiau Symudol - Ffonau symudol a dyfeisiau eraill sy'n derbyn galwadau, negeseuon a galwadau fideo

Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn hyrwyddo diogelwch a lles pob plentyn yn ein gofal. Credwn y dylai ein staff fod yn gwbl sylwgar yn ystod eu horiau gwaith, i sicrhau fod y plant i gyd yn y feithrinfa yn cael gofal ac addysg o ansawdd da.

Er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant, nid ydym yn caniatáu i staff ddefnyddio ffonau symudol personol yn ystod oriau gwaith.

Rydym yn defnyddio ffonau symudol sy'n cael eu cyflenwi gan y feithrinfa dim ond i ddarparu modd o gysylltu mewn rhai amgylchiadau, fel mynd ar dripiu allan.

Dylid defnyddio'r polisi hwn ar y cyd â'n polisi diogelwch ar-lein a'n polisiâu defnydd TG derbyniol i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio dyfeisiau'r feithrinfa ar-lein

Rhaid i staff gadw at y canlynol:

- Diffodd ffonau symudol neu eu rhoi'n fud a pheidio eu defnyddio yn ystod eich oriau gwaith
- Dim ond yn ystod amser egwyl ddynodedig y gellir defnyddio ffonau symudol/oriorau clyfar/oriorau ffitrwydd ac ni ddylai hyn fod o amgylch y plant.
- Rhaid storio ffonau symudol yn ddiogel yn ystafell y staff bob amser yn ystod oriau gwaith
- Dim ond at ddibenion meithrinfa y dylid defnyddio dyfeisiau meithrinfa, fel tabledi
- Ni fydd unrhyw apiau cyfryngau cymdeithasol na negeseuon ar ddyfeisiau'r feithrinfa, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan y rheolwyr at ddibenion y feithrinfa yn unig.
- Dim ond y rheolwyr ddylai lawrlwytho unrhyw apiau ar ddyfeisiau meithrinfa. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond apiau sy'n addas i oedran a chynnwys sydd ar gael i staff neu blant sy'n eu defnyddio
- Bydd hyn yn sicrhau dim ond apiau sy'n addas i'r oedran sydd ar gael i staff neu blant sy'n defnyddio
- Yn ystod tripiu allan, dim ond ffonau symudol sy'n perthyn i'r feithrinfa y mae'n rhaid i staff eu defnyddio.
- Dim ond dyfeisiau sy'n eiddo i feithrinfa a ddefnyddir i dynnu lluniau neu ffilmio fideos

- Ni fydd dyfeisiau meithrinfa yn cael eu cludo adref gyda'r staff a byddant yn aros yn ddiogel yn y lleoliad pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

2. Defnydd rhieni o ffonau symudol ac oriorau clyfar

Gofynnir yn garedig i rieni ymatal rhag defnyddio eu ffonau symudol tra byddant yn y feithrinfa neu wrth gasglu neu ollwng eu plant. Byddwn yn gofyn i unrhyw rieni sy'n defnyddio eu ffôn y tu mewn i safle'r feithrinfa orffen yr alwad neu gymryd yr alwad y tu allan. Rydym yn gwneud hyn i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu a bod yr amser ar gyfer gollwng a chasglu yn gyfle trosglwyddo o safon lle gallwn rannu manylion am eich plentyn.

Gofynnir i rieni beidio â chaniatáu i'w plentyn wisgo na dod â dyfeisiau a allai dynnu lluniau neu recordio fideos neu leisiau. Mae hyn yn cynnwys oriorau clyfar gyda'r galluedd hyn, fel Vtech. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu a hefyd yn amddiffyn eu heiddo gan y gallai gael ei ddifrodi neu ei golli yn y feithrinfa.

3. Defnydd ymwelwyr o ffonau symudol ac oriorau clyfar

Ni chaniateir i ymwelwyr ddefnyddio eu ffonau symudol na'u horiorau clyfar tra byddant yn y feithrinfa a gofynnir iddynt eu gadael mewn lle diogel fel swyddfa'r feithrinfa am hyd eu hymweliad.

4. Lluniau a Fideos

Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn cydnabod bod ffotograffau a recordiadau fideo yn chwarae rhan ym mywyd y feithrinfa. Rydym yn sicrhau mai dim ond gyda chaniatâd ymlaen llaw gan riant pob plentyn y caiff unrhyw ffotograffau neu recordiadau (gan gynnwys teledu cylch cyfyng) o blant yn ein meithrinfa eu tynnu ohonyn nhw, a dim ond mewn modd diogel y byddwn yn rhannu lluniau gyda rhieni. Byddwn yn cael y caniatâd hwn pan fydd pob plentyn wedi'i gofrestru ac yn ei ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y caniatâd hwn yn dal yn ddilys.

Rydym yn gofyn am ganiatâd unigol ar gyfer ffotograffau a recordiadau fideo at amrywiaeth o ddibenion gan gynnwys: eu defnyddio yn ystod taith ddysgu'r plentyn; at ddibenion arddangos; ar gyfer deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys gwefan ein meithrinfa, llyfryn a'r wasg leol; ac ar gyfer diogelwch mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a'r gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwn. Rydym yn sicrhau bod rhieni'n deall, pan fo'u plentyn hefyd wedi'u cynnwys ar lun o blentyn arall, ond nid fel y prif berson, y gall hwn gael ei ddefnyddio yn nhaith dysgu'r plentyn arall. Ni fydd ffotograffau a fideos yn cael eu tynnu mewn mannau lle cynhelir arferion gofal personol.

Os nad yw rhiant yn fodlon ag un neu fwy o'r defnyddiau hyn, byddwn yn parchu eu dymuniadau ac yn dod o hyd i ffyrdd eraill o gofnodi chwarae neu ddysgu eu plentyn.

Ni chaniateir i staff dynnu unrhyw ffotograffau na recordiadau o blentyn ar eu dyfeisiau storio gwybodaeth eu hunain e.e. camerâu, ffonau symudol, tabledi neu oriorau clyfar a dim ond y rhai a ddarperir gan y feithrinfa y maen nhw'n cael eu defnyddio. Bydd rheolwr y feithrinfa yn monitro'r holl ffotograffau a recordiadau i sicrhau bod dymuniadau'r rhieni'n cael eu bodloni a bod plant yn cael eu diogelu.

Bydd ffotograffau neu fideos wedi'u recordio ar ddyfeisiau symudol y feithrinfa yn cael eu trosglwyddo i'r ddyfais storio gywir i sicrhau nad oes unrhyw ddelweddau ar ôl ar y dyfeisiau symudol hyn.

Ni chaniateir i rieni a phlant ddefnyddio unrhyw ddyfais recordio naamera (gan gynnwys y rhai ar ffonau symudol neu oriorau clyfar) ar dir y feithrinfa heb ganiatâd ymlaen llaw gan y rheolwr.

Yn ystod digwyddiadau arbennig, e.e. partiön Nadolig neu bartïon gadael, gall staff gynhyrchu lluniau grŵp i'w dosbarthu i rieni ar gais. Yn yr achos hwn, byddwn yn cael caniatâd unigol ar gyfer pob plentyn cyn y digwyddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl ffotograffau sy'n cael eu tynnu yn unol â dewis y rhieni. Gofynnwn na ddylid postio lluniau o ddigwyddiadau fel partiön Nadolig ar unrhyw wefannau cyfryngau cymdeithasol na llwyfannau/ardaloedd eraill heb ganiatâd rhieni'r holl blant sydd wedi'u cynnwys yn y llun.

5. Yn berthnasol ar gyfer lleoliadau sy'n defnyddio dyddiaduron dysgu ar-lein yn unig

Ym Meithrinfa Toybox rydym yn defnyddio tabledi yn yr ystafelloedd i dynnu lluniau o'r plant a'u cofnodi'n uniongyrchol ar eu teithiau dysgu electronig. Rydym yn sicrhau mai at y diben hwn yn unig y defnyddir y dyfeisiau hyn ac nid ydym yn gosod cymwysiadau fel cyfryngau cymdeithasol na safleoedd negeseuon ar y dyfeisiau hyn.

Rydym yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau nad yw negeseuon e-bost a negeseuon testun (lle bo'n berthnasol) wedi'u hanfon o'r dyfeisiau hyn ac yn atgoffa staff o'r polisi chwythu'r chwiban os ydynt yn gweld staff yn torri'r gweithdrefnau diogelu hyn.